# Cydlynydd Sector a Chynorthwyydd Adran (Mamolaeth)

**Pam ymuno â S4C?**

Yn S4C, rydyn ni'n cynnig mwy na dim ond swydd - rydyn ni'n cynnig y cyfle i fod yn rhan o sefydliad creadigol, dynamig, a chenedlaethol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywyd diwylliannol Cymru. Fel Cydlynydd Sector a Chynorthwyydd Adran, byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi ein gwaith cynnwys a hyrwyddo cyflawniadau S4C yn y gwobrau a'r gweithgareddau, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r sector cynhyrchu.

Mae'r rôl hon yn ddelfrydol ar gyfer rhywun sydd yn drefnus, yn frwdfrydig, ac sydd â diddordeb mewn cyfryngau ac adloniant. Byddwch yn gweithio gyda thîmau ar draws y sefydliad a byddwch yn adeiladu perthynas â phartneriaid allanol, gan gyfrannu'n uniongyrchol at hyrwyddo rhagoriaeth a chreadigrwydd yn y diwydiant.

Rydym yn cynnig amgylchedd gweithio hyblyg ac uchelgeisiol, lle mae eich lles, datblygiad personol, ac ymddangosiadau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae gennym werthoedd cryf - Ar eich orau, Balch o S4C, dathlu pawb, Cer Amdani - ac rydym yn chwilio am rywun sydd ag angerdd am weithio mewn ffordd gydweithredol, gadarnhaol, ac ymrwymedig i helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Dewch a bod yn rhan o'n taith.

**Trosolwg y Swydd**

Cynorthwyo'r adrannau Cynnwys a Chyhoeddi gyda chyfrifoldeb arbennig dros weithredu a datblygu strategaeth cynllun gwobrau a gwyliau S4C.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

Mi fydd y dyletswyddau yn cynnwys:

- Darparu cefnogaeth weinyddol i'r timoedd Comisiynu, Digidol a Chyhoeddi.
- Trefnu holl geisiadau gwobrau a chreu cysylltiadau gydag unigolion a sefydliadau perthnasol.
- Cydlynu trefniadau staff S4C mewn gwyliau yng Nghymru, Prydain a thramor.
- Casglu gwybodaeth am ymddangosiadau a llwyddiannau S4C mewn gwyliau a gwobrau a pharatoi adroddiadau i'r Uwch Dîm Arwain a'r Bwrdd Unedol.
- Gweithio gyda'r adran marchnata a chyfathrebu i ddenu sylw at enwebiadau, buddugoliaethau a phresenoldeb S4C mewn gwobrau a gwyliau.
- Cynorthwyo'r Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys a bod yn ddolen gyswllt bwysig rhwng y sector gynhyrchu ac S4C.
- Trefnu cyfarfodydd Sector rheolaidd S4C mewn lleoliadau ar draws Cymru.
- Cefnogi cynlluniau ar gyfer digwyddiadau neu gynadleddau arbennig sy'n ymwneud â'r timoedd Cynnwys a Chyhoeddi.
- Cadw trefn ar ddyddiaduron, treuliau, trefniadau teithio ar ran rhai Penaethiaid.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

- Paratoi dogfennau ar gyfer cyfarfodydd, cadw nodiadau a threfnu'r pwyntiau gweithredu.
- Trefnu cyfarfodydd mewnol ac allanol gan gydlynu lleoliadau addas.
- Cofnodi cyfarfodydd mewnol ac allanol.
- Cynorthwyo adrannau eraill pan fo galw, e.e. ar adeg gwyliau neu salwch neu oherwydd llwyth gwaith ar adegau.
- Er mwyn sicrhau gweithle diogel i staff byddwch yn gweithio yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch a byddwch yn cefnogi a gweithredu awgrymiadau asesiadau risg.
- Bydd yn ddyletswydd arnoch i gydweithio gydag S4C i sicrhau fod eich cydweithwyr yn cael eu trin gyda pharch ac urddas a'ch bod yn hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal drwy bob agwedd o'r busnes, yn unol â pholisïau perthnasol S4C. Byddwch yn gweithredu mewn modd sydd yn hybu amgylchedd cyfeillgar.
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau megis hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

## Manyleb Person

| Nodweddion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o waith gweinyddol a sgiliau trefnu. | Profiad a waith trefnu a chydlynu |
| **Sgiliau a gwybodaeth** | Sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol gyda'r gallu i weithio dan bwysau ac i derfyn amser.<br><br>Gwybodaeth a phrofiad trylwyr o'r systemau gweinyddol diweddaraf.<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig).<br><br>Y gallu i gyflawni gwaith yn gywir ac yn fanwl dan bwysau amser.<br><br>Y gallu i weithio ar nifer o brosiectau ar yr un pryd ac i flaenoriaethu y gwaith. | Gwybodaeth am y sector gynhyrchu annibynnol yng Nghymru a thu hwnt |
| **Nodweddion personol** | Person brwdfrydig sy'n gallu cydweithio'n effeithiol ar draws timoedd mewn lleoliadau amrywiol.<br><br>Y gallu i gyfathrebu gyda staff ar bob lefel yn glir, cywir ac effeithiol.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf.<br><br>Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth.<br><br>Y gallu i weithio'n effeithiol dan bwysau. | Hunan gymhellol, gyda'r awydd a'r gallu i addasu a dysgu sgiliau newydd yn gyflym |

## Manylion eraill

**Lleoliad:** Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon ac maent yn gweithredu polisi gweithio'n hybrid. Disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn.

**Cyflog:** £29,000

**Cytundeb:** 9 mis

| | |
|---|---|
| **Oriau gwaith:** | 35 ¾ yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig |

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12.00 ar 14 Awst 2025 trwy llenwi'r ffurflen cais ar-lein.

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.
Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.